



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1320 (Cy. 291)

2020 No. 1320 (W. 291)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

CONSTITUTIONAL LAW

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**REPRESENTATION OF THE
PEOPLE, WALES**

Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl
(Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru)
(Diwygio) 2020

The Representation of the People
(Election Expenses Exclusion)
(Wales) (Amendment) Order 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.

Gwnaed Gorchymyn 2007 a gorchmynion diwygio dilynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond trosglwyddwyd y pwerau galluogi i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007.

Mae Gorchymyn 2007 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â threuliau etholiad fel y diffinnir "election expenses" yn erthygl 63 o'r Gorchymyn hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o'r treuliau hynny, fel y nodir yn erthygl 47 o'r Gorchymyn hwnnw.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 ("the 2007 Order") which contains provisions in relation to Senedd elections, the Representation of the People Act 1983 ("the 1983 Act") which contains provisions in relation to local government elections and the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 ("the 2000 Act") which contains provisions in relation to both Senedd and local government elections.

The 2007 Order and subsequent amendment Orders were made by the Secretary of State, but the enabling powers were transferred to the Welsh Ministers by the Wales Act 2017.

Part 2 of this Order amends Part 2 of Schedule 7 to the 2007 Order.

The 2007 Order sets out certain requirements in relation to "election expenses" as defined in article 63 of that Order. These include a limitation on the permitted amount of such expenses, as set out in article 47 of that Order.

Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio (“*excluded*”) rhag bod yn dreuliau etholiad o fewn yr ystyr a roddir i “election expenses” yn erthygl 63 o’r Gorchymyn hwnnw. Nid yw’r materion hynny yn ddarostyngedig i’r gofynion a ddisgrifir uchod, gan gynnwys y rhai sy’n cyfyngu ar y swm o dreuliau a ganiateir.

Mae erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i’w priodoli’n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i’r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i’w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o’r Saesneg i’r Gymraeg neu o’r Gymraeg i’r Saesneg, neu sy’n deillio o ganlyniad i hynny.

Mae Rhan 3 o’r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983.

Mae Deddf 1983 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â threuliau etholiad fel y diffinnir “election expenses” yn adran 90ZA o’r Ddeddf honno. Mae’r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o’r treuliau hynny, fel y nodir yn adran 76 o’r Ddeddf honno.

Mae Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio rhag bod yn dreuliau etholiad o fewn yr ystyr a roddir i “election expenses” yn adran 90ZA o’r Ddeddf honno. Nid yw’r materion hynny yn ddarostyngedig i’r gofynion a nodir uchod, gan gynnwys y rhai sy’n cyfyngu ar y swm o dreuliau a ganiateir.

Mae erthygl 5 o’r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i’w priodoli’n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i’r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 5 o’r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i’w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o’r Saesneg i’r Gymraeg neu o’r Gymraeg i’r Saesneg, neu sy’n deillio o ganlyniad i hynny.

Mae Rhan 4 o’r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 fel y mae’n gymwys i ymgeiswyr plaid yn etholiadau’r Senedd ac mewn etholiadau llywodraeth leol.

Part 2 of Schedule 7 to the 2007 Order sets out a list of matters which are “excluded” from being “election expenses” within the meaning of article 63 of that Order. Those matters are not subject to the requirements described above, including those that limit the amount of permitted expenses.

Article 3 of this Order adds to that list, matters of expenditure incurred by or on behalf of a disabled candidate that are reasonably attributable to the candidate’s disability. That expenditure must itself, be reasonably incurred.

Article 3 of this Order also adds to that list, matters of expenditure incurred by or on behalf of a candidate that are attributable to, or a consequence of, translating anything from English into Welsh or from Welsh into English.

Part 3 of this Order amends Part 2 of Schedule 4A to the 1983 Act.

The 1983 Act sets out certain requirements in relation to “election expenses” as defined in section 90ZA of that Act. These include a limitation on the permitted amount of such expenses, as set out in section 76 of that Act.

Part 2 of Schedule 4A to the 1983 Act sets out a list of matters which are “excluded” from being “election expenses” within the meaning of section 90ZA of that Act. Those matters are not subject to the requirements set out above, including those that limit the amount of permitted expenses.

Article 5 of this Order adds to that list, matters of expenditure incurred by or on behalf of a disabled candidate that are reasonably attributable to the candidate’s disability. That expenditure must itself, be reasonably incurred.

Article 5 of this Order also adds to that list, matters of expenditure incurred by or on behalf of a candidate that are attributable to, or a consequence of, translating anything from English into Welsh or from Welsh into English.

Part 4 of this Order amends Part 1 of Schedule 8 to the 2000 Act as it applies to party candidates at both Senedd and local government elections.

Mae Deddf 2000 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â gwariant ymgyrchu fel y diffinnir “campaign expenditure” yn adran 72 o’r Ddeddf honno. Mae’r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o’r treuliau hynny, fel y nodir yn adran 79 o’r Ddeddf honno.

Mae Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio rhag bod yn wariant ymgyrchu o fewn yr ystyr a roddir i “campaign expenditure” yn adran 72 o’r Ddeddf honno. Nid yw’r materion hynny yn ddarostyngedig i’r gofynion a nodir uchod, gan gynnwys y rhai sy’n cyfyngu ar y swm o wariant ymgyrchu a ganiateir.

Mae erthygl 7 o’r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i’w priodoli’n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i’r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 7 o’r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i’w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o’r Saesneg i’r Gymraeg neu o’r Gymraeg i’r Saesneg, neu sy’n deillio o ganlyniad i hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Gorchymyn hwn gan ei fod yn gweithredu diwygiadau technegol arferol nad ydynt yn cael unrhyw effaith, neu nad ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na’r sector cyhoeddus.

The 2000 Act sets out certain requirements in relation to “campaign expenditure” as defined in section 72 of that Act. These include a limitation on the permitted amount of such expenses, as set out in section 79 of that Act.

Part 1 of Schedule 8 to the 2000 Act sets out a list of matters which are “excluded” from being “campaign expenditure” within the meaning of section 72 of that Act. Those matters are not subject to the requirements set out above, including those that limit the amount of permitted campaign expenditure.

Article 7 of this Order adds to that list, matters of expenditure incurred by or on behalf of a disabled candidate that are reasonably attributable to the candidate’s disability. That expenditure must itself, be reasonably incurred.

Article 7 of this Order also adds to that list, matters of expenditure incurred by or on behalf of a candidate that are attributable to, or a consequence of, translating anything from English into Welsh or from Welsh into English.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order as it implements routine technical amendments which have no impact, or no significant, impact on the private, voluntary or public sectors.

2020 Rhif 1320 (Cy. 291)

2020 No. 1320 (W. 291)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

CONSTITUTIONAL LAW

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,
CYMRU**

**REPRESENTATION OF THE
PEOPLE, WALES**

**Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl
(Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru)
(Diwygio) 2020**

**The Representation of the People
(Election Expenses Exclusion)
(Wales) (Amendment) Order 2020**

Gwnaed 19 Tachwedd 2020

Made 19 November 2020

Yn dod i rym 19 Tachwedd 2020

Coming into force 19 November 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(1) a 157(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1) a thrwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 15(1) o Ran 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(2) a pharagraff 4 o Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(3), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(4).

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred on them by sections 13(1) and 157(2)(b) of the Government of Wales Act 2006(1) and in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by paragraph 15(1) of Part 3 of Schedule 4A to the Representation of the People Act 1983(2) and paragraph 4 of Part 2 of Schedule 8 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(3) and now exercisable by them(4).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 7(1), (2)(e) a (2)(f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

The Welsh Ministers have consulted the Electoral Commission in accordance with section 7(1), (2)(e) and (2)(f) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000.

(1) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
(2) 1983 p. 2. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 27(1) a (5) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22).
(3) 2000 p. 41.
(4) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

(1) 2006 c. 32. Section 13 was substituted by section 5(1) of the Wales Act 2017 (c. 4) and subsequently amended by the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).
(2) 1983 c. 2. Schedule 4A was inserted by section 27(1) and (5) of the Electoral Administration Act 2006 (c. 22).
(3) 2000 c. 41.
(4) The powers of the Secretary of State were transferred, in relation to Wales, to the Welsh Ministers by the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.I. 2018/644).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 15(2) o Ran 3 o Atodlen 4A(1) i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac adran 156(4)(j) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(2).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2020 ond—

- (a) nid yw erthyglau 2 a 3 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021;
- (b) nid yw erthyglau 4 a 5 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad llywodraeth leol yng Nghymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021;
- (c) mae erthyglau 6 a 7 yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru neu etholiad llywodraeth leol yng Nghymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

- (a) ystyr “Gorchymyn 2007” yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(3),
- (b) ystyr “Deddf 1983” yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac
- (c) ystyr “Deddf 2000” yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

A draft of this Order was laid before, and approved by resolution of Senedd Cymru in accordance with section 13(7) of the Government of Wales Act 2006, paragraph 15(2) of Part 3 of Schedule 4A(1) of the Representation of the People Act 1983 and section 156(4)(j) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(2).

PART 1

General

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Representation of the People (Election Expenses Exclusion) (Wales) (Amendment) Order 2020.

(2) This Order comes into force on 19 November 2020 but—

- (a) articles 2 and 3 only have effect for the purposes of a Senedd Cymru election at which the poll is held on or after 5 April 2021;
- (b) articles 4 and 5 only have effect for the purposes of a local government election in Wales at which the poll is held on or after 5 April 2021;
- (c) articles 6 and 7 have effect for the purposes of a Senedd Cymru election or a local government election in Wales at which the poll is held on or after 5 April 2021.

(3) In this Order—

- (a) “the 2007 Order” means the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007(3),
- (b) “the 1983 Act” means the Representation of the People Act 1983, and
- (c) “the 2000 Act” means the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000.

(1) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ym mharagraff 15(2) o Ran 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (decc 1).

(2) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 156(4) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (decc 1).

(3) O.S. 2007/236.

(1) The reference to each House of Parliament in paragraph 15(2) of Part 3 of Schedule 4A to the Representation of the People Act 1983 is to be read as a reference to the National Assembly for Wales by virtue of paragraph 9(2)(b) of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The National Assembly for Wales was renamed Senedd Cymru by virtue of section 2 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).

(2) The reference to each House of Parliament in section 156(4) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 is to be read as a reference to the National Assembly for Wales by virtue of paragraph 9(2)(b) of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The National Assembly for Wales was renamed Senedd Cymru by virtue of section 2 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).

(3) S.I. 2007/236.

RHAN 2

Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad
o dreuliau etholiad: etholiadau Senedd Cymru

Diwygio Gorchymyn 2007

2. Mae Gorchymyn 2007 wedi ei ddiwygio yn unol ag erthygl 3.

3. Yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Eithriadau cyffredinol) ar ôl paragraff 13 mewnosoder y canlynol—

“**13A.**—(1) Any matter that is reasonably attributable to the candidate’s disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred.

(2) In this paragraph “disability”, has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010(1).

13B. Expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

RHAN 3

Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad
o dreuliau etholiad: etholiadau llywodraeth leol
yng Nghymru

Diwygio Deddf 1983

4. Mae Deddf 1983 wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 5.

5. Yn Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (treuliau etholiad: eithriadau cyffredinol)—

(a) ym mharagraff 7A hepgorer is-baragraff (3);

(b) ar ôl paragraff 8 mewnosoder y canlynol—

“**8A.** In relation to a local government election in Wales, expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

PART 2

New general exclusions from the definition of
election expenses: Senedd Cymru elections

Amendment of the 2007 Order

2. The 2007 Order is amended in accordance with article 3.

3. In Part 2 of Schedule 7 to the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 (General exclusions) after paragraph 13 insert the following—

“**13A.**—(1) Any matter that is reasonably attributable to the candidate’s disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred.

(2) In this paragraph “disability”, has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010(1).

13B. Expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

PART 3

New general exclusions from the definition of
election expenses: local government elections in
Wales

Amendment of the 1983 Act

4. The 1983 Act is amended in accordance with article 5.

5. In Part 2 of Schedule 4A to the Representation of the People Act 1983 (election expenses: general exclusions)—

(a) in paragraph 7A omit sub-paragraph (3);

(b) after paragraph 8 insert the following—

“**8A.** In relation to a local government election in Wales, expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

(1) 2010 p. 15.

(1) 2010 c. 15.

Rhan 4

Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad o wariant ymgyrchu: etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

Diwygio Deddf 2000

6. Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 7.

7. Yn Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (eithriadau)—

- (a) ym mharagraff 2(1)(d) ar ddiwedd yr is-baragraff, hepgorer y gair “or”;
- (b) ym mharagraff 2(1)(e) ar ddiwedd yr is-baragraff, hepgorer y gair “him.” a mewnosoder “him; or”;
- (c) ar ôl paragraff 2(1)(e) mewnosoder y canlynol—

“(f) any expenses incurred in respect of a Senedd Cymru election or a local government election in Wales:

- (i) relating to any matter that is reasonably attributable to the candidate’s disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred; and
- (ii) in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

- (d) ar ôl paragraff 2(2) mewnosoder y canlynol—

“(3) In relation to sub-paragraph 2(1)(f)(i) “disability”, has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010.”

Part 4

New general exclusions from the definition of campaign expenditure: Senedd Cymru and local government elections in Wales

Amendment of the 2000 Act

6. The 2000 Act is amended in accordance with article 7.

7. In Part 1 of Schedule 8 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (exclusions)—

- (a) in paragraph 2(1)(d) at the end of the sub-paragraph, omit the word “or”;
- (b) in paragraph 2(1)(e) at the end of the sub-paragraph, omit the word “him.” and insert “him; or”;
- (c) after paragraph 2(1)(e) insert the following—

“(f) any expenses incurred in respect of a Senedd Cymru election or a local government election in Wales:

- (i) relating to any matter that is reasonably attributable to the candidate’s disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred; and
- (ii) in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.”

- (d) after paragraph 2(2) insert the following—

“(3) In relation to sub-paragraph 2(1)(f)(i) “disability”, has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010.”

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
19 Tachwedd 2020

Minister for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
19 November 2020

©Hawlfraint y Goron 2020

© Crown copyright 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202011191033 11/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/ksi/2020/1320>

ISBN 978-0-348-20671-5



9 780348 206715